Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

Chwefror 2025

**I: Pob claf sydd wedi cofrestru â Meddygfa Aberbeeg, Y Sgwâr, Aber-big, Abertyleri, NP13 2AB, sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.**

Annwyl glaf,

Mae Dr Allinson a Dr Ahmed o Bractis Meddygol Aberbeeg wedi hysbysu'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol o'u bwriad i ymddiswyddo o'u Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

O ganlyniad, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y bydd Practis Meddygol Aberbeeg yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o 1 Mawrth 2025.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ochr yn ochr â'r staff presennol ym Mhractis Meddygol Aberbeeg, rhwng nawr a 1 Mawrth, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i staff a chleifion.

Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth, a byddwch yn parhau i fod yn glaf cofrestredig ym Mhractis Meddygol Aberbeeg.

Dros y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael o ran dyfodol gwasanaethau Meddygon Teulu ar gyfer cleifion Practis Meddygol Aberbeeg, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am drefniadau ar gyfer y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch ag aelod o Dîm Contractio Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar 01495 241 254.

Yr eiddoch yn gywir,

**Lloyd Hambridge**
**Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Rhif Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200